

## Tasg 1

# Yr ŵyl (2)

Atebwch y cwestiynau yma:

1. Ydy Daya yn mwynhau'r ŵyl?

Rhowch resymau dros eich ateb.

Copiwch eiriau o'r darn i gefnogi beth rydych chi'n ei ddweud.

2. Beth sy'n dda am yr ŵyl ym marn Daya?

Beth sy ddim cystal am yr ŵyl ym marn Daya?

Llenwch y grid isod:

Da	Ddim cystal

3. Pa fath o berson yw Daya, yn eich barn chi? e.e.

- bachgen neu ferch neu ddyn neu ddynes?
- oed?
- personoliaeth?

Rhowch resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

Cymharwch eich syniadau chi â syniadau aelodau eraill yn y grŵp.

4. Beth ydy perthynas Daya a Chris yn eich barn chi?

Rhowch resymau dros yr hyn rydych chi'n ei ddweud.

5. Ydych chi wedi bod i unrhyw wyl, e.e. gŵyl gerddoriaeth, gŵyl fwyd, gŵyl ffilmiau, yr Eisteddfod Genedlaethol, gŵyl chwaraeon yr Urdd?

Ysgrifennwch am y profiad. Dwedwch:

- enw'r wyl
- ble roedd hi
- pryd roedd hi
- beth oedd yn digwydd yno
- beth wnaethoch chi yno
- unrhyw wybodaeth arall
- beth oedd eich barn chi am yr wyl

Siaradwch â'ch partner chi am yr ŵyl.

Bydd eich partner chi'n llenwi'r grid isod wrth iddo / iddi wrando.

Enw'r ŵyl	
Ble roedd hi	
Pryd roedd hi	
Beth oedd yn digwydd yno	
Beth wnaeth eich partner chi yno	
Unrhyw wybodaeth arall	
Barn eich partner chi am yr ŵyl	

Os nad ydych chi wedi bod i ŵyl, hoffech chi fynd i un?

- Pa fath?
- Pam?
- Gyda phwy hoffech chi fynd?
- Beth hoffech chi ei wneud yno?